



## Ysgolion Pentreuchaf

### 135. Polisi Sgiliau ar draws y Cwriciwlwm

#### Nod

Mae'n bwysig fod cynnydd disgyblion yn y Sgiliau Allweddol yn cael sylw priodol. Cyfranna hyfedredd disgyblion mewn medrau allweddol yn briodol at gyflawniad safonau da mewn ystod eang o bynciau ac agweddau ar ddysgu.

#### Canllawiau

1. Sicrhau fod y sgiliau ar draws y cwriciwlwm wedi eu cynllunio'n ofalus a bwriadus.
2. Cofio ei bod yn bosibl cynnwys sgiliau mewn meysydd lle nad ydi'r cyfleoedd mor amlwg e.e. Addysg Gorfforol ac ABaCh.
3. Talu sylw priodol i'r meysydd a'r sgiliau canlynol:

#### i) Datblygu Meddwl

Datblygu meddwl ar draws y cwriciwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio.

Datblygu y dull o gwestiynu drwy ysgogi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws cwriciwlwm. Creu a datblygu syniadau drwy gyfleoedd penodol e.e entrepreneuriaidd. Myfyrio a gwerthuso ac adolygu meini prawf llwyddiant.

#### ii) Datblygu Llythrennedd

Llythrennedd yw'r defnydd o fedrau iaith mewn gweithgareddau dyddiol yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith, ac yn y gymuned. Mae'n cynnwys defnyddio medrau llythrennedd a gwybod sut i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg. Mae llythrennedd yn disgrifio set o fedrau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas.

Yr amcan yw gosod seiliau a fydd yn sicrhau hyfedredd mewn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i gyfathrebu'n effeithiol; mae hyn yn cwmpasu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu a chyd-ddibyniaeth y medrau hyn. Mae Fframwaith Llythrennedd yn cynnig set o amcanion sy'n berthnasol ar draws y cwriciwlwm ac yn cael eu hymgorffori yn yr holl bynciau. Bydd cysondeb mewn addysgu llythrennedd yn Ysgol Pentreuchaf yn galluogi dysgwyr i ddatblygu strategaethau a gallu i'w haddasu i wahanol gyd-destunau.

\*am fanylion penodol, gweler y polisi Llythrennedd

#### iii) Datblygu Rhifedd

Sicrhau:

- ∅ bod rhifedd yn flaenoriaeth o fewn yr ysgol
- ∅ bod agwedd bositif yn cael ei fabwysiadu tuag at rifedd
- ∅ bod yna gyfleoedd i helpu'r dysgwyr i fagu hyder mewn rhifedd ac i fedru cymhwyso a chyfathrebu eu canlyniadau ar draws y cwriciwlwm ac yng nghyd-destun bywyd bob dydd
- ∅ bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o sgiliau sylfaenol rhifedd a bod ganddynt strategaethau effeithiol i fedru adalw ffeithiau rhif angenrheidiol yn gyflym a chywir
- ∅ bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fod yn rhifog, yn medru cyfranogi mewn trafodaethau yn ymwneud a rhifedd ac yn medru gweithio'n hyblyg a rhesymegol
- ∅ y dysgwyr yn cael eu hannog i weithio'n effeithiol o fewn grŵp ac i ddod o hyd i strategaethau priodol.
- ∅ fod cysondeb wrth addysgu strategaethau cyfrifiadau sylfaenol, datblygu sgiliau cyfrifiadau pen y dysgwr, dulliau cofnodi effeithiol ar gyfer cyfrifiadau arferol a'r defnydd priodol o gyfrifiannellau ar draws pob cyfnod allweddol ac ar draws y cwriciwlwm

- ∅ cyfleoedd digonol i'r dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau rhifedd, yn enwedig eu sgiliau rhif a rhesymu rhifol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- ∅ bod gweithgareddau digonol yn cael eu cynnig i gefnogi cysondeb a pharhad yn natblygiad sgiliau rhifedd y dysgwyr
- ∅ bod y gweithgareddau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn herio pob dysgwr .
- ∅ bod sgiliau rhifedd y dysgwyr yn cael eu hasesu yn effeithiol a bod eu cynnydd yn cael eu tracio
- ∅ bod yna gyfleoedd yn bodoli i wella gwybodaeth, sgiliau a hyder athrawon er mwyn datblygu sgiliau rhifedd y dysgwyr.

\*am fanylion penodol, gweler y polisi Rhifedd

#### iv) Datblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Datblygu a chymhwyso sgiliau TGCh i ddod o hyd i wybodaeth, ei pharatoi, ei phrosesu a'i chyflwyno, ac i drosglwyddo syniadau yn fwyfwy annibynnol.

Defnyddio ystod o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu at amrywiol ddibenion

Pob disgybl yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth.

Dadansoddi, prosesu a chyflwyno gwybodaeth, a modelu, mesur a rheoli digwyddiadau

Creu testun, tablau, graffiau, lluniau a sain – bwydo, golygu ac addasu testun, bwydo, storio, adfer, prosesu ac arddangos gwybodaeth, creu testun ac addasu cyfarwyddiadau rheoli

4. Dylid dysgu ar draws y cwricwlwm CA2:

i) **Y Cwricwlwm Cymreig** – gweler y polisi

ii) **Addysg Bersonol a Chymdeithasol** – gweler y polisi

#### Casgliad

Sicrhau bod y Sgiliau Allweddol yn cael eu bwydo i mewn i'r cynlluniau ac yn cael eu gweithredu'n gyson o ddydd i ddydd.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd:** \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_